| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Ionawr 2015** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad**<br>**Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol (Chwarter 2 2014-15)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno diweddariad ynglŷn â chyflawniad Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn niwedd chwarter 2, 2014-15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen i'r Cyngor ddeall pa gynnydd sy'n digwydd wrth gyflawni deilliannau'r Cynllun Corfforaethol. Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad, ac yn penderfynu ar unrhyw gam pellach sydd ei angen i ymateb i unrhyw fater sy'n ymwneud â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r adroddiad perfformiad hwn yn edrych ar y Cynllun Corfforaethol 2012-17, Cofrestr Prosiect Corfforaethol a Chytundeb Canlyniadau 2013-16. Mae'n darparu asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa gyfredol yn seiliedig ar eithriadau h.y. y mesuryddion sy'n Goch: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella, neu lle bo problem gyda'r data sydd angen sylw.

4.2 Mae nifer o ddangosyddion a mesuryddion wedi'u hamlygu'n goch yn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu nodi fel "blaenoriaeth ar gyfer gwella". Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu crynhoi yng Nghrynodeb Weithredol yr adroddiad.

4.3 Mae nifer o ddangosyddion, mesuryddion a gweithgareddau heb statws hefyd. Y rheswm am hyn fel arfer yw nad yw'r data ar gael hyd yn hyn ar gyfer y dangosydd dan sylw, neu nid yw'r gweithgaredd wedi dechrau eto. Unwaith eto, mae'r manylion yn yr adroddiad.

4.4 Mae Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o’r eithriadau allweddol, lle’r awgrymir y dylid canolbwyntio arnynt.

4.5 Mae’r adroddiad perfformiad hwn mewn arddull gwahanol i’r arfer. Mae’r adroddiad wedi’i gynhyrchu gyda’r System Rheoli Perfformiad newydd Verto. Mae’r system newydd ei lansio, ac mae rhai materion bychain yn yr adroddiad fydd yn cael eu trin yn ystod y cam datblygu nesaf, sef:

- Dyddiadau’n ymddangos ar echelin x, yn hytrach na chwarteri;
- Nid yw allwedd y statws yn cyfateb â’n labeli Rhagorol, Da, Derbyniol a Blaenoriaeth ar gyfer Gwella (er bod y lliwiau’n cyfateb).

Mae rhai o’r graffiau’n anodd eu gweld oherwydd nid yw amrediad yr echelin yn briodol ar gyfer y mesur ac mae’r gwerthoedd dan sylw yn gul iawn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae’r adroddiad yn ymwneud â’n cynnydd i ddarparu’r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn amlinellu faint o arian yn ychwanegol y mae’r cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Ar wahân i'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, cymerir yn ganiataol y gellir cyflawni'r cynllun corfforaethol o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol ac fe'i cyflwynwyd i’r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu’r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion ynddo yn cael effaith uniongyrchol ar ein staff a’n cymunedau.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1. Daw'r wybodaeth yr oedd ei hangen i gynhyrchu'r adroddiad hwn gan y gwasanaethau, a chafodd fersiwn ddrafft o'r adroddiad ei drafod mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er mwyn derbyn eu safbwyntiau a'u sylwadau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg penodol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a’r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai’r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae Erthygl 6.1 y Cyfansoddiad yn amlinellu cyfrifoldebau’r Pwyllgor mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol.

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Gwella Corfforaethol
Ffôn: 01824 706161